Cynnwys Pod Cwestiwn ac Ateb o Gyfarfodydd Rhwydwaith Mai 2020

Lefel 2 Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Craidd **tudalen 2**

Lefel 2 Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Ymarfer a Theori Uned 216 **tudalen 4**

Lefel 3 Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Ymarfer a Theori Unedau 330 a 331 **tudalen 5**

Lefel 2 a 3 Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Ymarfer **tudalen 6**

Cynnwys Pod Cwestiwn ac Ateb o Gyfarfod Rhwydweithio Lefel 2 Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Craidd

Cwestiwn	Ateb
Os nad yw dysgwyr wedi cwblhau nodiadau adolygu a oes angen i ganolfannau ddogfennu'r hepgoriad hwn?	dylid eu cyflwyno at ddibenion llwybr archwilio a sicrhau ansawdd allanol.
Mae pob un o'n dysgwyr wedi cael 6 mis o addysgu ar draws pob uned ac nawr maen nhw'n barod i gwblhau eu holl astudiaethau achos, ond nid ydynt wedi cyflwyno un eto. A allwn ni nawr fynd ymlaen i gwblhau astudiaethau achos yn ddigidol? Ymrestrwyd pawb cyn 20 Mawrth a'r dyddiad cau 31 Gorffennaf. A oes angen eu hawlio cyn dyddiad penodol?	Na, mae angen parhau i gwblhau astudiaethau achos dan amodau asesu dan reolaeth, fel yr amlinellir yn y canllawiau asesu. Mae'r canllawiau lliniaru presennol yn nodi bod yn rhaid i'r dysgwr fod wedi cwblhau o leiaf 2 astudiaeth achos dan amodau asesu dan reolaeth er mwyn cael ei gofrestru ar gyfer ardystio.
A oes angen llwytho i fyny unrhyw brawf o barodrwydd ar gyfer asesiad? h.y. ffug arholiad	Na, dim ond llwybr archwilio cyfan yr asesiad o astudiaeth achos hyd at ddogfennaeth sicrhau ansawdd mewnol ar wefan IAMIS y mae angen i pob canolfan ei lwytho i fyny, yn barod i'r swyddog sicrhau ansawdd allanol ei samplu.
A yw'r dysgwyr hynny wedyn yn wynebu oedi tymor hir, beth fydd yn digwydd gyda'r cyfnodau ar gyfer yr hydref	Ar gyfer dysgwyr sydd i fod i gwblhau ar ôl 31/07/2020, bydd set newydd o ganllawiau a mesurau lliniaru yn cael ei gyhoeddi i gefnogi effaith Covid-19.
Canfuom y dyfarnwyd marciau llawn i'r cwestiynau ar adegau am gwestiwn esbonio a'r myfyriwr ond wedi ysgrifennu pwyntiau bwled. A yw atebion pwyntiau bwled yn dderbyniol ar gyfer cwestiwn esbonio?	Mae angen i'r ganolfan wneud penderfyniad proffesiynol os yw'r dysgwr wedi esbonio'r ateb yn llawn yn y cyd-destun cywir. Eto, cyfeiriwch at dechnegau paratoi at arholiadau i annog dysgwyr i wneud y mwyaf o'u cyfleoedd.
Os oes gennyf ddysgwyr sy'n gweithio drwy ddysgu ac addysgu i baratoi ar gyfer astudiaethau achos, a oedd wedi'u cychwyn cyn 31 Mawrth OND nad ydynt wedi sefyll astudiaeth achos eto... a ydyn nhw'n gorfod aros am gyfres yr hydref?	Os yw canolfannau'n ail-agor ac y gall dysgwyr fynd yn ôl i ganolfannau'n ddiogel, gall dysgwyr barhau â'r asesiad. Bydd set newydd o ganllawiau ar ôl 31/07/2020 yn cael ei gyhoeddi'n fuan ar addasiadau i asesiadau.
A ellid rhannu astudiaethau achos ar draws canolfannau fel y gall dysgwyr gael mwy o gyfleoedd i ymarfer? - Roeddwn yn cyfeirio at sampl	Ni all CBAC gydlynu hyn. Fodd bynnag, mae safoni ymarferion ar draws canolfannau yn werthfawr a gallai ehangu'r banciau adnoddau sydd ar gael i bob canolfan.
Os nad yw dysgwyr yn cwblhau'r nodiadau adolygu, a oes angen i ganolfannau roi nodyn	At ddibenion llwybrau archwilio, anogir canolfannau i gynnwys datganiad os nad yw'r llwybr archwilio cyfan ar gael. Gan y bydd canolfannau yn derbyn sampl o bell y

yn egluro hyn?	gyfres hon, byddai'n help i'r swyddog sicrhau ansawdd allanol weld y llwybr asesu cyfan.
Pryd bydd gwybodaeth am gyfres yr hydref ar gael?	Bydd y set nesaf o ganllawiau yn cael ei gyhoeddi ar Dysgu Iechyd a Gofal Cymru (DIGC) yn fuan. Cofiwch edrych ar y tudalennau Covid-19 am y newyddion diweddaraf yn y dyfodol.
Os yw fy nysgwyr wedi cwblhau'r papurau enghreifftiol ac nid oes papur arall ar gael, beth arall y gallaf ei roi iddyn nhw?	Mae CBAC a City & Guilds yn annog canolfannau i barhau ag asesu ffurfiannol tan mae canolfannau'n ailagor a'r drefn arferol yn ailddechrau. Mae gan ganolfannau fynediad i adnoddau rhyngweithiol ar DIGC i gefnogi cyfleoedd dysgu ac addysgu pellach.
Mae hyn yn cymryd y bydd dysgwyr yn gallu mynychu coleg i sefyll astudiaethau achos a chwestiynau dewis lluosog mewn amgylchedd dan reolaeth?	Ydy, ond mae hyn yn cael ei adolygu'n barhaus a bydd gwybodaeth bellach yn cael ei chyhoeddi os yn briodol. Gobeithio bod hynny'n glir
A ydw i'n gywir i feddwl y bydd yn rhaid iddyn nhw gwblhau 1 astudiaeth achos a'r cwestiynau dewis lluosog ym mis Tachwedd? A fydd y rheol 2 wythnos wedi'i llacio yn gymwys gan fod fy nysgwyr wedi cael yr astudiaeth achos cyn y sefyllfa Covid?	Y ddealltwriaeth yw y bydd yn rhaid i ddysgwyr gwblhau un astudiaeth achos a chwestiynau dewis lluosog yn yr hydref. Ond, bydd dull wedi'i gadarnhau yn cael ei lwytho i fyny i DIGC yn fuan gyda chyfarwyddiadau pellach.
A fyddech cystal â rhoi eglurhad am y newidiadau ar gyfer darpariaeth addysg bellach ac yn seiliedig ar waith.	Mae'r mesurau lliniaru ar gyfer y Craidd yr un fath ar gyfer addysg bellach a dysgu seiliedig ar waith - dim gwahaniaethau
Os yw dysgwr wedi cwblhau 1 astudiaeth achos yn unig, hyd at ba ddyddiad fyddai ganddo i sefyll naill ai ail astudiaeth achos neu gwestiynau dewis lluosog mewn amgylchedd dan reolaeth?	Ni fydd y dysgwyr yn gallu parhau tan mae'r ganolfan yn ailagor. Nid oes unrhyw ddarpariaethau ar hyn o bryd i wneud UNRHYW newidiadau i'r amodau dan reolaeth ac nid yw Cymwysterau Cymru yn caniatáu i'r prawf gael ei oruchwylio o bell.
A fydd y dysgwr yn gallu parhau â'i asesiad ar ôl 31/07?	Bydd, dylai dysgwyr allu parhau â'r asesiad ar ôl 31/07/20 os bydd canolfannau'n ailagor. Anogir canolfannau i barhau â'r daith dysgu ac addysgu tan y bydd yn bosibl asesu.
Beth os na fydd unrhyw un yn y lleoliad â lefel 4 am sicrhau ansawdd yn fewnol?	Fel yr amlinellir ym manyleb y cymhwyster, mae angen i swyddogion sicrhau ansawdd mewnol fod yn gymwys er mwyn cwblhau sicrhau ansawdd yn y cymwysterau hyn. Felly, byddem yn annog cofrestru ar gyfer cymhwyster Lefel 4 sicrhau ansawdd a phrosesau mewnol gan gydlofnodi tan y bydd yn bosibl cymhwyso'n llawn.
Ydy'r cwestiynau dewis lluosog ar gael yn y Gymraeg yn electronig ac ar bapur	Ydyn, mae pob asesiad ar gael yn y Gymraeg.
Pryd gallan nhw ailsefyll y dewis lluosog os byddan nhw'n methu	Dim ond i gadarnhau bod y cyfle i ailsefyll y cwestiynau dewis lluosog 72 awr yn ddiweddarach a'r disgwyl yw bod y dysgwr wedi cael cyfle digonol i adolygu ac i gael cefnogaeth.
Rydym yn ystyried darparu'r cymhwyster hwn o fis Medi ymlaen. Pa gymhwyster sydd ei angen ar y swyddog sicrhau ansawdd mewnol?	Y cymhwyster sydd ei angen ar y swyddog sicrhau ansawdd mewnol ar gyfer y cymhwyster hwn yw D34/A1/Lefel 4 sicrhau ansawdd a phrosesau mewnol.

A oes adnoddau'n mynd i gael eu hychwanegu ar gyfer yr uned Theori o gwbl?	Gellir defnyddio'r banc adnoddau sydd ar gael ar DIGC ar draws y gyfres gyfan o gymwysterau iechyd a gofal cymdeithasol, a gofal plant.
Gallwn ymrestru dysgwyr sydd wedi cwblhau o leiaf 2 asesiad, ond nid ydym yn gwybod pryd byddwn ni'n cael mynediad i'r ganolfan er mwyn cael mynediad at y papurau a gwblhawyd ar bapur. Sut byddwn ni'n gallu bwrw ymlaen â'r sicrhau ansawdd allanol?	Er mwyn rhyddhau ardystiad ar gyfer y cymhwyster, bydd angen i'r swyddog sicrhau ansawdd allanol samplu llwybr archwilio cyfan yr asesiad.
Beth yw'r dyddiad cau ar gyfer llwytho graddau i fyny i IAMIS os yw dysgwyr wedi cwblhau 2 astudiaeth achos?	Y dyddiad cau yw 31/07/20

Cynnwys Pod Cwestiwn ac Ateb o Gyfarfod Rhyngweithio Lefel 2 Gofal, Chwarae, Dysgu a Gofal Plant: Ymarfer a Theori

Cwestiwn	Ateb
A yw hyn yn golygu y gall dysgwyr ddychwelyd pan fydd canolfannau'n ailagor, i gwblhau eu hymarfer ac yna y byddan nhw'n derbyn gradd wedi'i chyfrifo?	Mae hynny'n gywir, bydd dysgwyr yn derbyn gradd wedi'i chyfrifo pan fydd yr elfen ymarfer wedi'i llofnodi gan y swyddog sicrhau ansawdd allanol. Bydd angen ymweliad gan swyddog sicrhau ansawdd allanol ar y ganolfan i lofnodi'r rhan ymarfer ac yna gall y ganolfan gyflwyno canlyniad a ragfynegir ar gyfer yr elfen theori.
A fydd y 70% sy'n cael ei drafod mewn cyrsiau ymarfer eraill yn cael ei ddefnyddio ar gyfer y cymhwyster hwn?	Na, dim ond ar gyfer yr hen gymwysterau mae'r mesurau lliniaru 70/30 yn gymwys, nid ar gyfer y gyfres newydd o gymwysterau.
Pa mor hyderus ydych chi y bydd lleoliadau'n derbyn myfyrwyr yn ôl fis Medi?	Ni allwn ond cydymffurfio â chyngor ac arweiniad Llywodraeth Cymru ynghylch Covid-19 a phryd y gall canolfannau agor yn llawn ac ailddechrau yn ôl yr arfer. Mae hyn yr un mor wir am leoliadau gwaith hefyd.
A fydd yn rhaid cwblhau'r ymarfer erbyn unrhyw ddyddiad terfynol?	Ar hyn o bryd, rydym yn anelu at dymor yr hydref. Ond, gallai hyn newid oherwydd y canllawiau gan Lywodraeth Cymru, sy'n newid yn gyson. Bydd hyn yn cael ei adolygu'n barhaus.
Beth am ddysgwyr sydd wedi'u hymrestru ar y cwrs Lefel 3, sut y gallan nhw barhau â'u hymarfer Lefel 2?	Mae'r effaith ar ddysgwyr sy'n symud o Lefel 2 i Lefel 3 yn cael ei thrafod ar hyn o bryd. Mae angen i ganolfannau wneud penderfyniad proffesiynol ynghylch a yw'r dysgwr yn gallu cyrraedd safonau lefel 3 ac os symud ymlaen yw'r cam cywir ar gyfer y dysgwr.
A oes cynlluniau i ganiatáu recordio arsylwadau er mwyn i aseswyr allu arsylwi o bell?	Nid oes cynlluniau ar hyn o bryd i addasu'r elfen ymarfer er mwyn cynnal arsylwadau o bell. Anogir canolfannau i barhau ag asesiadau ffurfiannol tan y bydd canolfannau a lleoliadau ar agor yn ôl yr arfer er mwyn i asesiadau ailddechrau.
Pa dystiolaeth fydd yn ofynnol ar gyfer gradd wedi'i chyfrifo ar yr arholiad theori?	Canlyniad a ragfynegir gan diwtoriaid cyrsiau a datganiad bod y cynnwys llawn o uned 216 wedi'i gyflwyno a'i addysgu'n llawn.
Os nad yw lleoliadau yn derbyn myfyrwyr a dysgwyr erbyn mis Tachwedd ac felly nid yw dysgwyr yn gallu cwblhau eu cymhwyster ymarfer erbyn mis Ionawr, a yw hyn yn golygu y bydd angen iddyn nhw wneud yr arholiad ym mis Ionawr o hyd?	Mae hyn yn cael ei adolygu ar hyn o bryd a bydd yn newid yn dibynnu ar yr amgylchiadau ym mis Medi. Bydd City and Guilds a CBAC yn monitro hyn ac yn addasu'r amserlen yn unol â hynny er mwyn peidio â rhoi carfan 2019/20 dan anfantais.

Cynnwys Pod Cwestiwn ac Ateb o Gyfarfod Rhyngweithio Lefel 3 Gofal, Chwarae, Dysgu a Gofal Plant: Ymarfer a Theori: Unedau 330 a 331

Cwestiwn	Ateb
Sut ydyn ni'n cael mynediad at y cyn bapurau gan nad ydym wedi addysgu cymwysterau blaenorol CBAC?	Gall canolfannau weld cyn bapurau ar gyfer hen gymwysterau TGAU a Safon Uwch ar wefan gyhoeddus CBAC. Mae'r rhain yn adnoddau gwerthfawr ar gyfer dysgu o bell ac maen nhw'n helpu i baratoi dysgwyr o ran technegau ac amodau arholiad.
Pryd bydd gwerslyfrau ar gael?	Nid oes unrhyw werslyfr wedi'i gynllunio ar gyfer y cymhwyster hwn.
A oes rhaid i ni gael ein cymeradwyo ar gyfer y cymhwyster hwn os byddwn yn sefyll yr arholiad yn 2021?	Oes, os yw'r ganolfan yn bwriadu cyflwyno'r cymhwyster hwn ym mis Medi 2020, mae'n rhaid cyflwyno cymeradwyaeth ffurfiol i DIGC. Mae'r ddogfennaeth gymeradwyo ar gael ar DIGC dan gwybodaeth y ganolfan.
A fyddech cystal ag egluro - a yw dyfyniadau / cyfeiriadau yn cael eu cyfri mewn aseiniad 5,000 o eiriau?	Nid yw'r rhestr gyfeiriadau a'r dyfyniadau yn cael eu cynnwys mewn cyfrif geiriau cychwynnol ar gyfer yr asesiad. Dylid cynnwys rhestr gyfeiriadau lawn ar ddiwedd yr aseiniad.
O edrych ar dasg 1 a 2 - a oes unrhyw hyblygrwydd ar gyfer y rhai sy'n ateb yn gyfannol - efallai y bydd rhywfaint o dasg 2 yn nhasg 1 ganddyn nhw, er enghraifft	Gallai'r dysgwr weithio drwy'r tasgau mewn trefn ar gyfer Uned 331. Mae angen i'r dysgwr egluro ar gyfer pa dasg y mae pob darn o dystiolaeth yn berthnasol drwy dynnu sylw'n glir yn eu gwaith ysgrifenedig. Mae hyn yn dangos pwysigrwydd technegau paratoi at arholiad cyn yr asesiad.
Sawl gwaith y gallan nhw sefyll yr arholiad?	Gall y ganolfan gofrestru dysgwyr ar gyfer yr arholiad ym mis Ionawr a mis Mai. Ond, mae angen i'r ganolfan benderfynu ar barodrwydd ar gyfer asesiad a sicrhau bod y cynnwys ar gyfer Uned 330 i gyd wedi'i addysgu cyn cofrestru.
Yn ôl pob tebyg, mae angen i ddysgwyr gael Rhagoriaeth* yn y ddau asesiad er mwyn ennill D* cyffredinol, ac ati?	Oes, bydd canlyniadau Uned 330 a 331 yn nodi'r radd gyffredinol ar gyfer y cymhwyster.
Pa mor realistig ydych chi'n meddwl yw darparu'r cymhwyster Safon Uwch ochr yn ochr â hwn?	I ennill 3 chymhwyster Safon Uwch er mwyn cael eich derbyn i'r Brifysgol, mae'n bosibl eu cwblhau ar y cyd. Yn enwedig os yw'r dysgwr wedi cwblhau'r craidd yn flaenorol.
Ym mha grŵp oedran mewn lleoliad gwaith byddech chi'n rhoi myfyrwyr i gefnogi'r unedau olaf?	Dylai pob lleoliad gwaith gynnwys plant rhwng 0 a 7 mlwydd ac 11 mis oed.

Cynnwys Pod Cwestiwn ac Ateb o Gyfarfod Rhwydwaith Lefel 2 a Lefel 3 Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant

Cwestiwn	Ateb
Y Cyfanswm Amser Cymhwyso (CAC) yw 390 awr, nid yw hyn yn cynnwys oriau ymarfer, ai dim ond oriau yn y coleg yw'r rhain?	Y Cyfanswm Amser Cymhwyso (CAC) yw'r cyfanswm o amser, mewn oriau, y mae disgwyl i ddysgwr ei dreulio yn ennill cymhwyster. Mae'n cynnwys oriau dysgu dan arweiniad (a restrir ar wahân) ac oriau a dreulir yn paratoi, yn astudio ac yn cyflawni rhai gweithgareddau asesu ffurfiannol
Pa mor hir fyddwn ni'n ei gael i gwblhau arsylwadau asesu ar gyfer y garfan hon o ddysgwyr, pryderon ynghylch lleoliadau ddim yn caniatáu i ddysgwyr nac ymwelwyr ddychwelyd am gyfnod?	Mae'r mesurau lliniaru presennol ar waith tan 31 Gorffennaf 2020 ond byddwn yn parhau i fonitro effaith unrhyw gyfyngiadau ar fynediad dysgwyr at asesiadau, gyda chyrff y sector a gyda Cymwysterau Cymru.
Os oes aseswr yn y gweithle yn y lleoliad, a allai ef/hi gynnal asesiad wedi'i arsylwi ar gyfer yr uned iechyd a diogelwch?	Os yw aseswyr yn gallu parhau i wneud hynny'n ddiogel ac yn unol â'r canllawiau ar ymbellhau cymdeithasol, caiff hyn ei ganiatáu. Fodd bynnag, i fwyafrif y dysgwyr nid yw hyn yn bosibl
A yw'n dal i fod yn ofynnol i ddysgwyr gyflawni'r 2 arsylwad cyn asesu yn ogystal â'r 4 profiad?	Ydy, ond ar gyfer y rhan fwyaf o ddysgwyr, mae asesu ar gyfer cymwysterau GChDDP: Ymarfer ac IGC: Ymarfer wedi'u GOHIRIO. Ni ddylai asesu fod yn digwydd oni bai ei bod hi'n ddiogel gwneud hynny o fewn y cyfyngiadau presennol. Mae'r pwyslais ar hyn o bryd ar ddysgwyr sy'n gallu parhau â'u dysgu ac i adeiladu eu portffolio.
A ydw i'n iawn i feddwl y dylem fod yn parhau i weithio â'r dysgwyr tan 31 Gorffennaf?	Dylid cefnogi dysgwyr sy'n dal i fod ar y rhaglen ag addysgu a dysgu o bell
A allwch chi egluro beth yw asesiad a thystiolaeth ddigonol i ddyfarnu'r cymhwyster ymarfer newydd i ddysgwyr?	Mae'r cymhwyster Ymarfer newydd wedi'i OHIRIO ar gyfer y rhan fwyaf o ddysgwyr. Ar gyfer dysgwyr sy'n gallu parhau ag asesu, NID oes unrhyw addasiadau ar waith h.y. mae'n rhaid cwblhau'r strategaeth asesu llawn.
O ble fydd y ffurflen ddatganiad neu'r daenlen y crybwyllwyd gennych i'w cael?	Bydd y rhain ar gael ar dudalennau Covid-19 y gwledydd ar wefan City & Guilds.
Os ydyn nhw wedi cwblhau'r arsylwadau a'r asesu ffurfiol, a allwn ni hawlio amdanyn nhw?	Os yw dysgwyr eisoes wedi cwblhau 100% o'u cymhwyster erbyn 20 Mawrth 2020, dylai canolfannau hawlio am ardystiad yn y ffordd arferol. Fodd bynnag, os yw'r cyfyngiadau sy'n gysylltiedig â Covid-19 wedi effeithio ar yr asesu ac mae'r dysgwr ran o'r ffordd drwy ei gymhwyster, mae'r canlyniad canlynol ar gael - Ar gyfer dysgwyr sy'n cwblhau'r cymwysterau Ymarfer newydd: Gohirio tan Medi 2020
A fyddwch chi'n cynnal sesiwn ymarfer arall i fynd drwy'r ymarfer GChDDP newydd pan fydd y cyflwyno arferol yn ailddechrau, er	Nid ydym yn bwriadu ail-wneud yn ffurfiol y broses o gynnal y ganolfan ar unwaith ond gall canolfannau: 1. Gael mynediad at recordiadau gweminar o'r broses hon ar dudalennau cymhwyster DIGC

mwyn cefnogi aseswyr i grynhoi a chyflwyno'r elfen ymarfer?	2. Cysylltu â'r Cynghorydd Technegol i drefnu cefnogaeth bellach
Ai gyda'r swyddog sicrhau ansawdd allanol y dylem gysylltu?	Os oes gan ganolfannau ymholiadau am unrhyw agwedd ar y broses sicrhau ansawdd allanol, dylen nhw anfon yr ymholiad i'n mewnflwch ansawdd penodol hclw.quality@cityandguilds.com
Beth am archwilio dysgwyr sy'n cyrraedd diwedd eu dyddiad ymrestru	Dylai canolfannau ddilyn y broses arferol os ydyn nhw'n gobeithio cael estyniad i gyfnod ymrestru dysgwr.
Lle rydym ni'n sefyll o ran sicrhau ansawdd portffolio papur yn fewnol os nad oes modd cael mynediad at y portffolio. A oes unrhyw syniad gennych sut y gallwn ni wneud hyn?	Rhaid bod gwybodaeth ddigonol ar gael i'r swyddog sicrhau ansawdd mewnol er mwyn sicrhau ansawdd y broses. Nid yw'n bosibl ardystio dysgwyr oni bai bod proses sicrhau ansawdd mewnol wedi'i chynnal. Mewn rhai achosion, gallai hyn olygu bod oedi cyn ardystio
Beth os yw cofrestriad yn dod i ben bryd hynny?	Dylai canolfannau archwilio dyddiadau terfynol cofrestriadau eu dysgwyr a dylent ddefnyddio'r broses safonol i geisio am estyniad lle mae tystiolaeth glir o anfantais.